

Canllawiau i arsylwyr etholiadau Senedd Ewrop

Ebrill 2019

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at arsylwyr etholiadol a achredwyd gan y Comisiwn Etholiadol. Maent yn cynnwys gwybodaeth am ba etholiadau sy'n cael eu cynnal, pwy sy'n gwneud beth yn ystod yr etholiadau hyn a beth i'w ddisgwyl yn y prosesau etholiadol y mae gennych yr hawl i arsylwi arnynt.

Os hoffech wneud cais i ddod yn arsylwr achrededig, gallwch gael gwybod sut i wneud hynny ar ei gwefan yma: <https://www.electoralcommission.org.uk/cymru/find-information-by-subject/elections-and-referendums/observing-elections-and-referendums>

Pa etholiadau a gynhelir?

1.1 Ddydd Iau 23 Mai 2019, mae etholiadau Senedd Ewrop wedi'u trefnu ledled y DU. Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at arsylwyr yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae canllawiau ar wahân ar gael i arsylwyr yng Ngogledd Iwerddon.

Beth y gallaf arsylwi arno?

1.2 Fel arsylwr achrededig, mae'r hawl gennych i fynychu'r digwyddiadau canlynol:

- anfon a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post

- y bleidlais
- dilysu a chyfrif y pleidleisiau

1.3 Rydym wedi cyhoeddi [Cod Ymarfer](#) ar gyfer arsylwyr etholiadol. Rhaid i chi gydymffurfio â'r safonau ymddygiad a nodir yn y Cod hwn.

1.4 Nid oes angen i chi roi gwybod i swyddogion etholiadol eich bod am arsylwi ar weithrediadau. Fodd bynnag, os byddwch yn rhoi gwybod iddynt, mae'n bosibl y byddant yn gallu rhoi rhywfaint o wybodaeth leol berthnasol i chi, er enghraifft, rhestr o orsafoedd pleidleisio. Gallwch ddal i wneud ymweliadau dirybudd neu newid eich cynlluniau os byddwch am wneud hynny.

Pwy all bleidleisio yn yr etholiadau hyn?

1.5 Gall person bleidleisio yn yr etholiadau hyn os yw:

- wedi'i gynnwys ar y gofrestr etholiadol
- yn 18 oed o leiaf ar ddiwrnod yr etholiad
- yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd Gwyddelig, yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad neu'n ddinesydd o'r Undeb Ewropeaidd
- yn byw yn y DU

Rhaid i ddinasyddion o wledydd yr Undeb Ewropeaidd (heblaw am y DU, Gweriniaeth Iwerddon, Malta a Chyprus) gwblhau ffurflen yn nodi eu bod yn dymuno pleidleisio yn y DU ac nid yn eu gwledydd eu hunain.

Pa ddull pleidleisio a ddefnyddir?

1.6 Ar hyn o bryd, mae Senedd Ewrop yn cynnwys 751 o Aelodau Senedd Ewrop (ASEau) a gaiff eu hethol gan 28 o wledydd sy'n aelod o'r Undeb Ewropeaidd. Cynhelir etholiadau ledled Ewrop unwaith bob pum mlynedd.

1.7 Ar hyn o bryd, mae 73 o ASEau yn cynrychioli'r DU yn Senedd Ewrop. Mae 11 o ranbarthau etholiadol ym Mhrydain Fawr ac un yng Ngogledd Iwerddon. Caiff pob rhanbarth ei gynrychioli gan rhwng tri a 10 ASE.

1.8 Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, mae pob plaid yn cyflwyno rhestr o ymgeiswyr, a elwir yn rhestr ranbarthol. Gall ymgeiswyr annibynnol hefyd sefyll yn yr etholiad.

1.9 Bydd y pleidleiswyr yn cael papur pleidleisio a fydd yn rhestru'r holl bleidiau a'r holl ymgeiswyr annibynnol sy'n sefyll yn eu rhanbarth. Gallant bleidleisio o blaid un rhestr plaid neu o blaid ymgeisydd annibynnol.

1.10 Bydd nifer yr ASEau a gaiff eu hethol gan bob plaid i gynrychioli rhanbarth yn dibynnu ar y gyfran gyffredinol o bleidleisiau a gaiff pob plaid.

Pwy sy'n gwneud beth mewn etholiad Senedd Ewrop?

Y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol

1.11 Mae gan bob un o'r 11 o ranbarthau etholiadol ym Mhrydain Fawr Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol. Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol sy'n gyfrifol am y broses gyffredinol o gynnal yr etholiad ar gyfer ASEau ar gyfer eu rhanbarth etholiadol.

1.12 Mae Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol yn gyfrifol am y broses enwebu ar gyfer eu rhanbarth. Byddant yn cynnal sesiynau briffio ar gyfer pleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid, yn derbyn papurau enwebu a gaiff eu hanfon atynt ac yn cyhoeddi datganiad o'r pleidiau a'r ymgeiswyr annibynnol a enwebwyd ar gyfer y rhanbarth etholiadol.

Swyddogion Canlyniadau Lleol

1.13 Caiff Swyddog Canlyniadau Lleol ei benodi ar gyfer ardal pob awdurdod lleol. Maent yn annibynnol ar yr awdurdod mewn perthynas â'u swyddogaethau etholiadol ac yn gyfrifol am weinyddu'r etholiad yn eu hardal.

1.14 Byddwch hefyd yn gallu cysylltu â'r Swyddog Canlyniadau Lleol dros eich ardal drwy gysylltu â'ch swyddfa etholiadau leol. Ceir cyfeiriadau a rhifau ffôn pob swyddfa etholiadau yn www.dybleidlaisdi.co.uk.

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol

1.15 Y Swyddog Cofrestru Etholiadol sy'n gyfrifol am gynnal y gofrestr o etholwyr a rhestrau pleidleiswyr absennol ar gyfer eu hardal awdurdod lleol. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fel arfer yn uwch swyddog yn yr awdurdod lleol a gall hefyd gyflawni rôl y Swyddog Canlyniadau Lleol. Ceir manylion cyswllt eich Swyddog Cofrestru Etholiadol yn www.dybleidlaisdi.co.uk.

Y Comisiwn Etholiadol

1.16 Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gorff statudol annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y DU.

1.17 Rydym yn cofrestru pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, yn monitro ac yn cyhoeddi rhoddion i bleidiau gwleidyddol ac yn rheoleiddio gwariant mewn etholiadau penodol. Rydym hefyd yn achredu arsylwyr i fynychu gweithrediadau etholiadau.

1.18 Nid ydym yn rhedeg etholiadau ond rydym yn gyfrifol am roi cyngor a chymorth ar faterion etholiadol i bawb sy'n gysylltiedig ag etholiadau. Rydym hefyd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith pleidleiswyr.

1.19 Dyma ein manylion cyswllt:

The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London
EC1Y 8YZ

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: gwylbodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Gwefan: www.comisiwnetholiadol.org.uk

Pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr annibynnol

1.20 Rhaid i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr annibynnol gyflwyno papur enwebu a chydsynio i'r enwebu i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn ystod y cyfnod enwebu ac erbyn 4pm ddydd Iau 25 Ebrill 2019 fan bellaf (4pm ar 24 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol Gogledd-orllewin Lloegr).

1.21 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol gyhoeddi'r datganiad o'r pleidiau a'r personau a enwebwyd erbyn 5pm ddydd Iau 25 Ebrill 2019 fan bellaf (5pm ddydd Gwener 24 Ebrill 2019 yn rhanbarth Gogledd-orllewin Lloegr). Bydd hyn yn dangos unrhyw bleidiau a'u rhestr o ymgeiswyr ac unrhyw ymgeiswyr annibynnol a enwebwyd yn y rhanbarth.

Pleidleisio drwy'r post

1.22 Gall etholwyr wneud cais i pleidleisio drwy'r post. Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn dechrau anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post at bleidleiswyr drwy'r post tua phythefnos cyn y diwrnod pleidleisio. Gall pleidleiswyr dychwelyd eu pecynnau drwy'r post, i'w cyngor lleol neu eu cyflwyno mewn gorsafoddd pleidleisio ar y diwrnod pleidleisio. Rhaid dychwelyd pecynnau pleidleisio drwy'r post wedi'u cwblhau erbyn 10pm ar y diwrnod pleidleisio.

1.23 Mae'r hawl gennych i fynychu'r sesiynau lle y caiff pecynnau pleidleisio drwy'r post eu hanfon a'r sesiynau lle y cânt eu hagar.

1.24 Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn gallu dweud wrthy'ch pryd y caiff pleidleisiau post eu hanfon a'u hagar.

Beth sy'n digwydd mewn sesiwn anfon pleidleisiau post?

1.25 Mae'n debygol y cynhelir sawl sesiwn ar gyfer anfon pleidleisiau post. Gellid eu cynnal ar safleoedd argraffwyr allanol. Gall y Swyddog Canlyniadau Lleol ddweud wrthy'ch pryd a ble y caiff y sesiynau anfon eu cynnal.

1.26 Yn ystod y sesiwn anfon, caiff pecynnau pleidleisio drwy'r post eu llunio. Bydd y pecynnau yn cynnwys:

- **Amlen A** - hon yw'r amlen y bydd yr etholwr yn dychwelyd ei bapur pleidleisio ynddi. Fe'i nodir â'r llythyren 'A' a'r geiriau 'amlen papur pleidleisio'

- **Amlen B** - hon yw'r amlen y bydd yr etholwr yn ei defnyddio i ddychwelyd amlen y papur pleidleisio a'r datganiad pleidleisio drwy'r post. Caiff ei marcio â'r llythyren 'B' a chyfeiriad y Swyddog Canlyniadau Lleol
- **Y datganiad pleidleisio drwy'r post** - mae'r datganiad hwn yn cynnwys enw'r etholwr, nifer y papurau pleidleisio a anfonwyd ato, cyfarwyddiadau ar sut i bleidleisio drwy'r post a lle i'r etholwr lofnodi a nodi ei ddyddiad geni
- **Y papur pleidleisio**

1.27 Wedyn, caiff y pecynnau pleidleisio drwy'r post eu dosbarthu i etholwyr, naill ai â llaw neu drwy'r post.

Pryd y caiff pleidleisiau post eu hagar?

1.28 Mae'n debygol y cynhelir sawl sesiwn agor amlenni pleidleisiau post cyn y diwrnod pleidleisio, yn ogystal ag ar y diwrnod pleidleisio ei hun. Gall y Swyddog Canlyniadau Lleol ddweud wrthyhch pryd a ble y cynhelir y sesiwnau.

1.29 Cynhelir sesiwn agor amlenni derfynol hefyd ar ôl i'r digwyddiadau pleidleisio ddod i ben. Caiff unrhyw bleidleisiau post a gyflwynwyd mewn gorsafoedd pleidleisio eu hagar yn ystod y sesiwn hon. Gellir cynnal y sesiwn hon yn y lleoliad cyfrif neu mewn lleoliad arall. Gall y Swyddog Canlyniadau Lleol eich hysbysu o leoliad y sesiwn agor amlenni derfynol.

Beth sy'n digwydd mewn sesiwn agor amlenni pleidleisiau post?

1.30 Rhaid i bleidleiswyr drwy'r post gwblhau a dychwelyd datganiad pleidleisio drwy'r post sy'n cynnwys eu llofnod a'u dyddiad geni, yn ogystal â'u papur pleidleisio.

1.31 Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn penderfynu a yw'r dyddiad geni a'r llofnod a ddarparwyd gan etholwyr ar eu datganiadau pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i'r llofnod a'r dyddiad geni a ddarparwyd yn flaenorol gan yr etholwr ac sydd yn eu cofnodion. Os na fyddant yn cyfateb, caiff y bleidlais bost ei gwrthod.

1.32 Bydd nifer fach iawn o bleidleiswyr wedi cael hepgoriad am na allant lofnodi neu ddarparu llofnod cyson oherwydd anabledd neu anallu i ddarllen neu ysgrifennu. Nid oes angen i'r pleidleiswyr hyn lofnodi eu datganiad pleidleisio drwy'r post.

1.33 Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn egluro'r broses ar gyfer agor amlenni pleidleisiau post i chi. Gall roi gwybodaeth i chi am y gweithdrefnau i'w dilyn yn ystod sesiwn agor amlenni, gan gynnwys cyfarwyddiadau ar yr hyn y gallwch ei wneud a'r hyn na allwch ei wneud yn ystod y sesiwn. Dylech gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r Swyddog Canlyniadau Lleol wedi eu rhoi.

1.34 Caiff papurau pleidleisio eu cadw â'u hwynebau i lawr drwy gydol y broses o agor amlenni pleidleisiau post. Ni ddylai unrhyw un sy'n mynychu sesiwn agor amlenni geisio gweld sut y cafodd papurau pleidleisio unigol eu marcio.

1.35 Gellir crynhoi'r broses o agor amlenni pleidleisiau post fel a ganlyn:

- 1 Caiff pleidleisiau post eu cludo i'r sesiwn agor amlenni mewn blychau pleidleisio
- 2 Caiff yr amlenni allanol (amlen B) eu tynnu allan a'u cyfrif
- 3 Caiff cyfanswm nifer yr amlenni allanol ei gofnodi
- 4 Caiff yr amlenni allanol (amlen B) eu rhannu rhwng timau o staff agor rhwng timau o staff agor
- 5 Bydd y staff yn agor pob amlen allanol (amlen B) ac yn tynnu'r datganiad pleidleisio drwy'r post ac amlen y papur pleidleisio wedi'i selio (amlen A) allan
- 6 Bydd y staff yn cadarnhau bod y rhif ar y datganiad pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i'r rhif ar amlen A
- 7 Os bydd y rhifau yn cyfateb, bydd y staff yn cadarnhau bod yr etholwr wedi darparu llofnod a dyddiad geni (heb gadarnhau mai'r unigolyn yw'r etholwr hyn o bryd).
Caiff datganiadau pleidleisio drwy'r post heb lofnod a dyddiad geni eu gwrthod.

8

Os bydd y datganiad **neu'r** papur pleidleisio ar goll, neu os nad yw'r rhifau ar y datganiad ac amlen y papur pleidleisio yn cyfateb, caiff y ddogfen (dogfennau) ei rhoi (eu rhoi) i'r neilltu, ei chofnodi a'i storio (eu cofnodi a'u storio) mewn pecynnau diogel

9

Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Lleol ddilysu'r dyddiadau geni a'r llofnodion ar bob datganiad a bodloni ei hun eu bid yn cyfateb i'r manylion ar geisiadau gwreiddol yr etholwyr

10

Ar ôl dilysu'r llofnodion a'r dyddiadau geni, caiff y datganiadau pleidleisio drwy'r post eu symud o'r byrddau

11

Bydd y staff yn agor amlenni'r papurau pleidleisio (amlen A) ac yn tynnu'r papur pleidleisio

12

Bydd y staff yn cadarnhau bod y rhif ar gefn y papur pleidleisio yn cyfateb i'r rhif ar amlen y papur pleidleisio (amlen A)

13

Caiff y papurau pleidleisio dilys (**nid** pleidleisiau) eu cyfrif a chofnodir y cyfanswm

14

Caiff yr holl bapurau pleidleisio dilys eu rhoi mewn blychau pleidleisio a'u storio'n ddiogel cyn eu dosbarth i leoliad y cyfrif ar ôl i'r digwyddiad pleidleisio gau

Dyletswydd i sicrhau cyfrinachedd

1.36 Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn rhoi copi o'r Hysbysiad statudol o'r Angen am Gyfrinachedd i chi. Rhaid i unrhyw un sy'n mynychu sesiwn anfon neu agor amlenni pleidleisiau post gydymffurfio â'r hysbysiad hwn.

1.37 Caiff papurau pleidleisio eu cadw â'u hwynebau i lawr drwy gydol y broses o agor amlenni pleidleisiau post. Ni ddylai unrhyw un sy'n mynychu sesiwn agor amlenni wneud y canlynol:

- ceisio gweld sut y cafodd papurau pleidleisio unigol eu marcio
- ceisio edrych ar farciau neu rifau adnabod ar bapurau pleidleisio
- datgelu sut y cafodd unrhyw bapur pleidleisio penodol ei farcio
- trosglwyddo unrhyw wybodaeth o'r fath a geir o'r sesiwn

1.38 Gall rhywun a geir yn euog o dorri'r gofynion hyn wynebu dirwy anghyfyngedig, neu gall wynebu carchar am hyd at chwe mis.

Arsylwi mewn gorsafoedd pleidleisio



1.39 Mae gennych yr hawl i arsylwi y tu mewn i orsafoedd pleidleisio. Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn gallu rhoi rhestr i chi o'r holl orsafoedd pleidleisio yn yr ardal lle yr hoffech arsylwi.

Pryd bydd gorsafoedd pleidleisio yn agor?

1.40 Bydd gorsafoedd pleidleisio ar agor rhwng 7am a 10pm ddydd Iau 23 Mai 2019. Gallwch gyrraedd ychydig cyn hyn er mwyn arsylwi ar y broses o selio'r blwch (blychau) pleidleisio cyn i'r digwyddiad pleidleisio agor.

Beth fydd y cynllun y tu mewn i'r orsaf pleidleisio?

1.41 Mae'n bosibl y bydd cynllun pob gorsaf pleidleisio yn wahanol, ond gall fod yn debyg i'r delweddau isod:



Pwy all bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio?

1.42 Gall unrhyw berson ar gofrestr etholiadol yr orsaf bleidleisio bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio, oni bai:

- ei fod yn bleidleisiwr post cofrestredig
- ei fod yn bleidleisiwr drwy ddirprwy cofrestredig a bod ei ddirprwy eisoes wedi pleidleisio ar ei ran neu wedi gwneud cais i bleidleisio ar ei ran
- nad yw'n 18 mlwydd oed neu hŷn ar y diwrnod pleidleisio

1.43 Bydd etholwyr yn cael cerdyn pleidleisio cyn yr etholiad yn dweud wrthynt ble y gallant bleidleisio. Nid oes angen i'r rhan fwyaf o etholwyr fynd â'r cerdyn pleidleisio gyda nhw i'r orsaf bleidleisio er mwyn pleidleisio. Yr unig etholwyr sy'n gorfod dod â cherdyn pleidleisio gyda nhw i bleidleisio yw'r rhai sydd wedi cofrestru'n ddienw oherwydd y risgiau i'w diogelwch.

1.44 Ni ellir rhoi papur pleidleisio i bleidleiswyr post cofrestredig yn yr orsaf bleidleisio. Gallant ddychwelyd eu pecyn pleidleisio drwy'r post wedi'i gwblhau i unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal gyfrif neu i'r Swyddog Canlyniadau Lleol yn y swyddfa etholiadau.

1.45 Rhaid i becynnau pleidleisio drwy'r post a ddychwelir i orsafoedd pleidleisio gael eu rhoi i staff gorsafoedd pleidleisio ac nid yn y blwch pleidleisio. Bydd staff yr orsaf bleidleisio yn cadw unrhyw bleidleisiau post yn ddiogel hyd nes y cânt eu casglu.

Pwy all fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio?

1.46 Yn ôl y gyfraith, mae gan y bobl ganlynol yr hawl i fod yn bresennol mewn gorsaf bleidleisio:

- pleidleiswyr
- y rhai o dan 18 oed sy'n dod gyda phleidleiswyr
- cymdeithion pleidleiswyr anabl
- ymgeiswyr, eu hasiantiaid etholiadol ac unrhyw is-asiantiaid
- asiantiaid pleidleisio
- y Swyddog Canlyniadau Lleol a'i staff
- y Swyddog Llywyddu a chlercod
- swyddogion yr heddlu a swyddogion cymorth cymunedol sydd ar ddyletswydd yn yr orsaf bleidleisio
- cynrychiolwyr o'r Comisiwn Etholiadol
- arsylwyr a achredwyd gan y Comisiwn Etholiadol

Beth y mae asiantiaid pleidleisio yn ei wneud?

1.47 Gall pleidiau ac ymgeiswyr benodi asiantiaid pleidleisio i fod yn bresennol mewn unrhyw orsaf bleidleisio. Dim ond un asiant pleidleisio ar ran yr un blaid neu'r un ymgeisydd annibynnol a all fod yn bresennol ar unrhyw adeg.

1.48 Prif rôl asiant pleidleisio yw canfod achosion o gambersonadu (pan fydd unigolyn yn pleidleisio fel rhywun arall - boed yn rhywun byw neu farw, neu'n rhywun ffug).

1.49 Mae dyletswyddau eraill y gall yr asiantiaid pleidleisio ymgymryd â nhw yn cynnwys y canlynol:

- cadarnhau bod y blwch pleidleisio yn wag am 7am
- bod yn bresennol pan fydd y Swyddog Llywyddu yn marcio papur pleidleisio ar ran pleidleisiwr
- bod yn bresennol adeg cau'r digwyddiad pleidleisio er mwyn arsylwi ar y broses o selio'r blwch pleidleisio a pheynnau eraill
- atodi ei sêl ei hun i'r blwch pleidleisio neu unrhyw becyn yn ychwanegol at y sêl swyddogol

Beth sy'n digwydd mewn gorsaf bleidleisio?

1.50 Bydd staff gorsafoedd pleidleisio yn gwneud y canlynol:

- gofyn am enw a chyfeiriad y pleidleiswyr ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn gymwys i bleidleisio
- marcio llinell syth yn erbyn cofnod y pleidleisiwr ar y gofrestr etholwyr
- dweud rhif ac enw'r etholwr yn uchel
- ysgrifennu rhif yr etholwr ar restr wrth ymyl rhif y papur pleidleisio i'w ddsbarthu
- gwneud yn siŵr bod y papur pleidleisio yn cynnwys y marc swyddogol (e.e. cod bar neu ddyfrnod)
- plygu'r papur pleidleisio a'i roi i'r pleidleisiwr heb ei blygu fel y gall weld yr holl opsiynau ar y papur pleidleisio

1.51 Mae'n bosibl y bydd mwy nag un etholiad yn cael ei gynnal. Os felly, bydd staff yr orsaf bleidleisio yn rhoi papur pleidleisio ar gyfer pob etholiad i bleidleiswyr. Weithiau ni fydd gan etholwr yr hawl i bleidleisio ym mhob un o'r digwyddiadau pleidleisio.

1.52 Os bydd mwy nag un etholiad, gellir defnyddio blwch pleidleisio unigol ar gyfer pob un o'r etholiadau neu gellir defnyddio un blwch ar gyfer pob etholiad ar wahân.

1.53 Wedyn, bydd y pleidleisiwr yn marcio ei bapur pleidleisio mewn bwth pleidleisio preifat, yn plygu ei bapur pleidleisio wedi'i gwblhau yn hanner, yn dangos y cefn i'r Swyddog Llywyddu ac yn ei roi nôl yn y blwch pleidleisio.

Pa gymorth sydd ar gael i bleidleiswyr ag anableddau?

1.54 Mae nifer o gyfleusterau ar gael mewn gorsafoedd pleidleisio er mwyn helpu pleidleiswyr ag anableddau:

- bwth pleidleisio â silff ar uchder sy'n addas i bobl â chadair olwyn
- bwth pleidleisio â goleuadau ychwanegol
- fersiwn print mawr o'r papur pleidleisio (at ddibenion cyfeirio yn unig)
- dyfais bleidleisio gyffyrddadwy er mwyn helpu pleidleiswyr â nam ar eu golwg i farcio eu papur pleidleisio

1.55 Os na fydd pleidleisiwr yn gallu marcio'r papur pleidleisio ei hun oherwydd anabledd, gall y Swyddog Llywyddu neu gydymaith ei farcio ar ei ran. Rhaid i'r pleidleisiwr hysbysu staff yr orsaf bleidleisio mai dyna sut yr hoffai fwrw ei bleidlais.

1.56 Os bydd cydymaith yn marcio'r papur pleidleisio ar ran pleidleisiwr, gofynnir i'r cydymaith lenwi ffurflen. Ni all cydymaith helpu mwy na dau etholwr i bleidleisio mewn etholiad.

Pwy yw'r Rhifwyr?

1.57 Mae rhifwyr yn sefyll y tu allan i orsafoedd pleidleisio ac yn cofnodi nifer yr etholwyr sydd wedi pleidleisio. Wedyn, gallant nodi cefnogwyr tebygol nad ydynt wedi pleidleisio eto a'u hannog i wneud hynny cyn i'r digwyddiad pleidleisio gau.

1.58 Nid oes gan rifwyr statws cyfreithiol ac mae gan bleidleiswyr yr hawl i wrthod rhoi unrhyw wybodaeth iddynt.

Beth sy'n digwydd ar ôl i'r digwyddiad pleidleisio gau?

1.59 Bydd y digwyddiad pleidleisio yn cau am 10:00pm. Caiff unrhyw bleidleiswyr sy'n aros mewn ciw yn eu gorsaf bleidleisio am 10pm bleidleisio, hyd yn oed os na fyddant wedi cael papur pleidleisio eto.

1.60 Pan fydd pob pleidleisiwr a gafodd bapur pleidleisio wedi pleidleisio, rhaid i'r Swyddog Llywyddu selio'r blwch pleidleisio. Gall asiantiaid pleidleisio hefyd ychwanegu eu seliau eu hunain os byddant am wneud hynny.

1.61 Rhaid i'r Swyddog Llywyddu wedyn gwblhau nifer o ffurflenni swyddogol:

- y cyfrif o'r papurau pleidleisio (yn datgan faint o bapurau pleidleisio a roddwyd)
- y rhestr o bleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gymdeithion
- y rhestr o bleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu
- datganiad o nifer y pleidleiswyr y cafodd eu pleidleisiau eu marcio gan y Swyddog Llywyddu
- datganiad o nifer y pleidleisiau post a gyflwynwyd yn yr orsaf bleidleisio
- y rhestr pleidleisiau a gyflwynwyd

1.62 Rhaid i'r Swyddog Llywyddu fynd â'r canlynol i leoliad y cyfrif yn ddi-oed:

- y blwch (blychau) pleidleisio
- yr amlen sy'n cynnwys unrhyw bleidleisiau post a gyflwynwyd i'r orsaf
- ffurflenni swyddogol
- deunydd papur yr etholiad
- unrhyw ddeunyddiau eraill

Dyletswydd i gynnal cyfrinachedd yn yr orsaf bleidleisio

1.63 Rhaid i unrhyw un sy'n mynychu gorsaf bleidleisio gynnal cyfrinachedd y bleidlais. Yn benodol, rhaid sicrhau na chaiff y wybodaeth ganlynol ei datgelu:

- enw neu rif etholiadol y rhai sydd wedi neu heb bleidleisio
- y rhif neu'r marc adnabod unigryw arall ar y papur pleidleisio

1.64 Ni ddylai unrhyw un sy'n mynychu gorsaf bleidleisio geisio canfod sut mae pleidleisiwr wedi pleidleisio na phwy y mae ar fin pleidleisio drosto.

1.65 Gall asiant pleidleisio farcio ar ei gopi ef o'r gofrestr o etholwyr y pleidleiswyr hynny sydd wedi gwneud cais am bapurau pleidleisio. Os bydd yr asiant pleidleisio yn gadael yr orsaf bleidleisio yn ystod yr oriau pleidleisio, rhaid iddo adael y copi wedi'i farcio o'r gofrestr yn yr orsaf bleidleisio er mwyn sicrhau na thorrir gofynion cyfrinachedd.

Arsylwi'r broses dilysu a chyfrif

1.66 Mae hawl gennych i fod yn bresennol yn y broses dilysu a chyfrif. Dim ond arsylwi ar y broses y cewch wneud. Ni chaniateir i chi fynd i mewn i'r ardal gyfyngedig lle mae'r staff yn cyfrif y pleidleisiau. Mae gan y Swyddog Canlyniadau Lleol yr hawl i gyfyngu ar nifer yr arsylwyr a all fod yn bresennol ar unrhyw adeg benodol yn ystod y broses dilysu a chyfrif.

1.67 Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn gallu dweud wrthych ble a phryd y caiff y prosesau dilysu a chyfrif eu cynnal. Gallai fod ar unrhyw adeg rhwng 10pm ddydd Iau 23 Mai a 10pm ddydd Sul 26 Mai. Nid oes angen i chi roi gwybod ymlaen llaw eich bod yn bwriadu mynychu.

Pwy all fynychu'r cyfrif?

1.68 Yn ôl y gyfraith, mae gan y bobl ganlynol yr hawl i fod yn bresennol yn ystod y prosesau dilysu a chyfrif:

- y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a'i staff
- y Swyddog Canlyniadau Lleol a'i staff
- ymgeiswyr annibynnol ac ymgeiswyr ar restrau pleidiau, ynghyd ag un gwestai fesul ymgeisydd
- asiantiaid ac is-asiantiaid etholiadol
- asiantiaid cyfrif
- cynrychiolwyr o'r Comisiwn Etholiadol
- arsylwyr a achredwyd gan y Comisiwn Etholiadol
- unrhyw berson arall a gaiff ganiatâd gan y Swyddog Canlyniadau Lleol

1.69 Gall y Swyddog Canlyniadau Lleol ganiatáu i gynrychiolwyr o'r cyfryngau fod yn bresennol yn ystod y prosesau dilysu a chyfrif. Ni ddylent ymyrryd â'r broses na pheryglu cyfrinachedd y bleidlais.

Beth y mae asiantiaid cyfrif yn ei wneud?

1.70 Mae gan asiantiaid cyfrif nifer o rolau pwysig i'w chwarae yn y cyfrif:

- maent yn arsylwi'r broses gyfrif ac yn sicrhau ei bod yn gywir
- gallant dynnu sylw staff cyfrif at unrhyw bapurau pleidleisio amheus.

- os byddant yn anghytuno â phenderfyniad y Swyddog Canlyniadau Lleol i wrthod papur pleidleisio, gallant ofyn i'r Swyddog Canlyniadau Lleol farcio ar y papur pleidleisio "gwrthwynebwyd y penderfyniad i wrthod"
- os caiff proses gyfrif ei hatal am unrhyw reswm, gall asiantiaid cyfrif ychwanegu eu seliau pan fydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn selio'r blychau pleidleisio a'r amlenni

Beth yw'r broses ddilysu?

1.71 Ar ôl i'r gorsafoedd pleidleisio gau am 10pm, caiff y blychau pleidleisio eu dosbarthu i'r lleoliad dilysu. Caiff papurau pleidleisio drwy'r post a gafodd eu derbyn a'u hagor yn gynharach hefyd eu dosbarthu i'r lleoliad mewn blychau pleidleisio wedi'u selio.

1.72 Wedyn rhaid dilysu'r holl bapurau pleidleisio, gan gadw'r papurau pleidleisio â'u hwynebaw i lawr. Mae dau brif ddiben i'r broses ddilysu:

- sicrhau a dangos bod yr holl bapurau pleidleisio a roddwyd mewn gorsafoedd pleidleisio a'r holl bapurau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd wedi cyrraedd y cyfrif
- darparu'r ffigur a ddylai gyfateb i ganlyniad y cyfrif

1.73 Caiff nifer y papurau pleidleisio ym mhob blwch ei chymharu â'r nifer ar y cyfrif o'r papurau pleidleisio. Os bydd nifer y papurau pleidleisio ym mhob blwch yn cyfateb i'r cyfrif o'r papurau pleidleisio, mae'r broses o ddilysu'r blwch hwnnw wedi'i chwblhau.

1.74 Os na fydd y niferoedd yn cyfateb, caiff y papurau pleidleisio eu hailgyfrif a chaiff y ddogfennaeth ei harchwilio eto. Bydd y broses hon yn parhau hyd nes y bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn fodlon o ran nifer wirioneddol y papurau pleidleisio i'w cynnwys yn y cyfrif.

1.75 Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn cwblhau'r datganiad dilysu sy'n cynnwys canlyniad y broses o ddilysu pob blwch pleidleisio. Caiff y datganiad ei rannu â'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a chaiff copïau eu rhoi i unrhyw asiant sy'n bresennol unwaith y bydd y broses ddilysu wedi'i chwblhau.

Sut y caiff y pleidleisiau eu cyfrif?

1.76 Gellir cyfrif y pleidleisiau ar adeg wahanol ac mewn lleoliad gwahanol i'r broses o ddilysu'r pleidleisiau. Os caiff y blychau sy'n cynnwys y papurau pleidleisio wedi'u dilysu eu storio mewn lleoliad ar wahân i'r lleoliad cyfrif, dylid cadarnhau bod nifer y blychau a ddosbarthwyd yn cyfateb i nifer y blychau a storiwyd.

1.77 Ni ellir agor unrhyw flwch hyd nes y bydd y cyfrif wedi dechrau. Dylid agor pob blwch gan sicrhau bod unrhyw asiantiaid ac arsylwyr sy'n bresennol yn gallu gweld yn glir. Pan fydd blwch wedi'i selio gan asiant, dylid cymryd gofal i ddangos i unrhyw asiantiaid ac arsylwyr sy'n bresennol bod y sêl hon yn gyflawn o hyd cyn ei hagor.

1.78 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Lleol gymysgu'r papurau pleidleisio cyn didoli a chyfrif y pleidleisiau.

1.79 Wedyn bydd staff y cyfrif yn didoli'r papurau pleidleisio yn bleidleisiau ar gyfer pob plaid neu ymgeisydd annibynnol.

1.80 Dylai'r papurau pleidleisio fod yn weladwy drwy'r amser i unrhyw ymgeiswyr, asiantiaid ac arsylwyr sy'n bresennol.

1.81 Dylai unrhyw bapurau pleidleisio amheus gael eu rhoi o'r neilltu er mwyn dyfarnu yn eu cylch.

Beth yw papurau pleidleisio amheus?

1.82 Ystyr papur pleidleisio amheus yw papur pleidleisio na chafodd ei gwblhau'n unol â'r cyfarwyddiadau. Yn ystod y cyfrif, caiff y papurau pleidleisio hyn eu rhoi o'r neilltu. Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn cyflwyno dyfarniad ar y papurau pleidleisio hyn yn rheolaidd drwy gydol y cyfrif er mwyn penderfynu p'un a yw bwriad y pleidleisiwr yn ymddangos yn glir ar y papur pleidleisio.

1.83 Gwneir cyhoeddiad yn datgan bod dyfarniad ar fin cael ei wneud ar bapurau pleidleisio amheus. Y Swyddog Canlyniadau Lleol fydd yn penderfynu p'un a yw pob papur pleidleisio amheus yn ddilys a hynny ym mhresenoldeb yr ymgeiswyr, yr asiantiaid a'r arsylwyr. Gallwch fynychu'r broses ddyfarnu ond ni chaiff ei ohirio os na fyddwch yn bresennol.

1.84 Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn rhoi gwybod i'r rheini sy'n bresennol p'un a yw pob papur pleidleisio amheus yn ddilys ai peidio ac yn nodi'r rheswm am ei benderfyniad. Mae penderfyniad y Swyddog Canlyniadau Lleol yn derfynol a dim od drwy ddeiseb etholiadol y gellir ei herio.

1.85 Rhaid i unrhyw bapurau pleidleisio amheus y datganwyd eu bod yn ddilys gael eu cyfrif a'u cynnwys yng nghyfanswm nifer y pleidleisiau a fwriwyd dros y blaid neu'r ymgeisydd priodol.

1.86 Ni chaiff papur pleidleisio ei gyfrif:

- os nad yw wedi ei farcio
- os nad yw'n cynnwys y marc swyddogol
- os yw'n cynnwys mwy nag un bleidlais
- os yw'n cynnwys unrhyw farc neu ysgrifen a all enwi'r pleidleisiwr
- os nad yw'n nodi bwriad y pleidleisiwr yn glir

1.87 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Lleol farcio'r gair "gwrthodwyd" ar unrhyw bapur pleidleisio a gaiff ei wrthod a rhaid iddo lunio datganiad yn dangos nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd am y rhesymau hyn.

Beth sy'n digwydd ar ôl cyfrif y pleidleisiau?

1.88 Ar ôl i'r staff orffen cyfrif y pleidleisiau, rhaid ychwanegu'r cyfanswm ar gyfer pob plaid ac ymgeisydd unigol at gyfanswm nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd, a dylai'r ffigur hwn gyfateb yn union i'r ffigur dilysu. Wedyn rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Lleol gyflwyno'r cyfansymiau lleol dros dro i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.

1.89 Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol hefyd yn rhannu'r canlyniad dros dro â'r asiant cyfrif dynodedig ar gyfer pob plaid ac unrhyw ymgeiswyr annibynnol. Ni ellir rhannu'r canlyniadau dros dro ag ymgeiswyr ac asiantiaid cyn 10pm ddydd Sul 26 Mai.

1.90 Bryd hynny, gall ymgeiswyr ac asiantiaid cyfrif perthnasol ofyn i'r Swyddog Canlyniadau Lleol ailgyfrif y pleidleisiau er y gall y Swyddog Canlyniadau Lleol wrthod gwneud hynny os cred bod y cais yn afresymol.

1.91 Ar ôl i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a'r ymgeiswyr a'r asiantiaid ystyried y cyfansymiau lleol dros dro, bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn datgan y cyfansymiau lleol.

Dyletswydd i sicrhau cyfrinachedd

1.92 Mae dyletswydd ar unrhyw un sy'n mynychu'r cyfrif i gynnal cyfrinachedd y cyfrif. Yn arbennig, ni ddylai unrhyw un sy'n mynychu wneud y canlynol:

- canfod neu geisio canfod y rhif neu unrhyw farc adnabod unigryw arall ar gefn unrhyw bapur pleidleisio
- cyfleu unrhyw wybodaeth a geir yn ystod y cyfrif ynghylch y blaid neu'r ymgeisydd y rhoddir unrhyw bleidlais iddi neu iddo ar unrhyw bapur pleidleisio penodol

Cyflwyno adborth

1.93 Rydym yn croesawu adborth o'ch arsylwadau etholiadol ac ar eich profiadau o gynllun arsylwyr y Comisiwn Etholiadol a gallwch ei gyflwyno gan ddefnyddio ein [ffurflen adborth](#).

1.94 Os hoffech gyflwyno adborth cyn etholiadau Senedd Ewrop ym mis Mai 2019, y dyddiad cau er mwyn i'r adborth hwn gael ei ystyried yw dydd Gwener 7 Mehefin 2019.

1.95 Gellir rhannu adborth â Swyddogion Canlyniadau Lleol perthnasol er mwyn helpu i wella'r ffordd y caiff etholiadau eu rhedeg a'r cynllun arsylwyr.

1.96 Mae'n bosibl y byddai'n ddefnyddiol i chi argraffu copi o'r [ffurflen adborth](#) ymlaen llaw er mwyn mynd â hi gyda chi pan fyddwch yn arsylwi.

1.97 Os hoffech anfon adborth ar ffurf wahanol, anfonwch e-bost i observers@electoralcommission.org.uk